# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Mehefin 2020

Amser: 14.00 - 17.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6336

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Caroline Jones AS |
| Tystion: | Miranda Evans, Policy and Programmes Officer, Anabledd Cymru<br>Megan Thomas, Swyddog Polisi, Anabledd Cymru<br>Zoe Richards, Learning Disability Wales<br>Nathan Owens, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, RNIB<br>Ansley Workman, RNIB Cymru<br>Steffan Evans, Sefydliad Bevan<br>Claire Thomas, Swyddog polisi ac ymchwil, Sefydliad Bevan<br>Gwennan Hardy, Uwch swyddog polisi, Canolfan Cygnor ar |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Bopeth Cymru<br>Rachel Cable, Oxfam Cymru<br>Catherine Fookes, Women's Equality Network (WEN) Wales<br>Cerys Furlong, Chwarae Teg<br>Robert Visintainer, Rheolwr y Prosiect, Men's Sheds |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon - y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am ryw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith: sesiwn dystiolaeth ar anabledd

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Miranda Evans, Swyddog Polisi a Rhaglenni, Anabledd Cymru
- Megan Thomas, Swyddog Polisi, Anabledd Cymru

- Zoe Richards, Prif Weithredwr, Anabledd Dysgu Cymru
- Ansley Workman, Cyfarwyddwr, RNIB Cymru
- Nathan Owen, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, RNIB Cymru

2.2 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd RNIB Cymru i roi gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor am hyfforddi cŵn tywys a chadw pellter cymdeithasol.

## 3 Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith: sesiwn dystiolaeth ar aelwydydd incwm isel

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Steffan Evans, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan
- Claire Thomas, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan
- Rachel Cable, Pennaeth Oxfam Cymru
- Gwennan Hardy, Uwch Swyddog Polisi, Cyngor ar Bopeth Cymru

3.2 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd Oxfam Cymru i roi copi o'i adroddiad, 'The Welsh Doughnut 2020' i'r Pwyllgor.

## 4 Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith: sesiwn dystiolaeth ar rywedd

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Catherine Fookes, Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
- Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg
- Robert Visintainer, Rheolwr Prosiect, Men's Sheds Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan y Llywydd ynghylch cais y Pwyllgor am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar fudd-daliadau yng Nghymru - 17 Mehefin 2020

5.1a Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Llywydd ynghylch cais y Pwyllgor am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar fudd-daliadau yng Nghymru.

### 5.2 Gohebiaeth gan Goleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru ynghylch cynllunio gofal ymlaen llaw a chyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mehefin

5.2a Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Goleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru ynghylch cynllunio gofal ymlaen llaw a chyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mehefin.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith: trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2, 3 a 4.